ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

FFRAMWAITH SWYDDOGAETHAU A RENNIR

Diben

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno fframwaith o swyddogaethau craidd cyffredin i gefnogi'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau ledled Rhanbarth ERW.

Mae'r fframwaith yn nodi'r disgwyliadau a'r manylion a amlinellir yn y Cytundeb Cyfreithiol rhwng y chwe Awdurdod Lleol, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.

Bydd unrhyw mân newidiadau a wneir i'r cyfrifoldebau a nodir yn y cytundeb yn cael eu gwneud o fewn y fframwaith hwn a'u cymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

Prif ddiben y fframwaith yw llywio dosbarthiad y gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni cynllun busnes cyffredinol y consortiwm ledled y rhanbarth. Mae hefyd yn cefnogi'r cylch gwaith penodol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gweithio rhanbarthol i helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc.

Mae'r fframwaith hwn yn eistedd ochr yn ochr â'r strwythurau presennol a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr adrannau hynny sy'n integrol iddo.

Strwythur

Mae'r ddogfen hon yn darparu trosolwg o'r swyddogaethau a'r egwyddorion craidd y cytunwyd arnynt. Disgwylir y bydd timau unigol yn defnyddio'r ddogfen yn ganllaw i ddatblygu eu galluoedd penodol eu hunain.

Sail resymegol am ddatblygu'r fframwaith

Mae Gweithio Rhanbarthol yn rhagofyniad ar gyfer gwella ysgolion yn effeithiol yng Nghymru (*Dogfen Ganllawiau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, Chwefror 2014*). Yn hyn o beth, mae rôl y consortiwm yn glir, a diben y ddogfen hon yw nodi'r ffordd y mae ERW yn canoli arbenigedd er mwyn rheoli ei swyddogaethau ledled y rhanbarth.

Mae cynllun trefniadaethol ERW yn seiliedig ar gydweithio rhwng y chwech ALl. Bydd y fframwaith hwn yn egluro sut mae pob awdurdod yn cynnal y seilwaith rhanbarthol.

Y Swyddogaethau a Rennir



Mae modd rhannu'r swyddogaethau a rennir yn ERW yn ddau wahanol fath / yn ddwy wahanol thema:-

a) Y rheini a nodir yn y Cytundeb Cyfreithiol
b) Y rheini a gomisiynwyd mewn partneriaeth yn weithredol gan un neu fwy ALl i gefnogi'r swyddogaethau canolog

a) Y rheini a nodir yn y Cytundeb Cyfreithiol

1. **Gwasanaethau Ariannol** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Penfro, a fydd yn rheoli costau'r ddarpariaeth a'r gyllideb, ac a fydd yn sicrhau bod yr arferion cyfrifyddu a fabwysiadir yn cydymffurfio ag arfer da a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn ogystal, mae ERW yn cyflogi Swyddog Cyllid amser llawn, sy'n gweithio i'r Swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Gyfarwyddwr.

2. **Adnoddau Dynol** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Penfro. Mae'r staff a gyflogir yn ganolog gan ERW yn gyflogeion i Gyngor Sir Penfro, ac felly fe'u cefnogir gan wasanaethau AD yn yr ALl. Hefyd, mae ERW yn cyflogi Rheolwr AD i arwain gwaith gwella ysgolion yn rhan o'r Model Cenedlaethol, ac i gydlynu gwaith timau'r 6 ALl. Disgwylir bod pob ALl yn cydweithio drwy'r gwasanaeth AD i reoli meysydd gwaith cyffredin.

3. **Gwasanaethau Cyfreithiol** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae hyn yn cynnwys rôl y swyddog monitro / gwasanaethau cyfreithiol yn cefnogi'r Cydbwyllgor i wneud penderfyniadau.

   Hefyd, disgwylir bod pob ALl yn cydweithio drwy'r gwasanaeth i reoli meysydd gwaith cyffredin.

4. **Caffael** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Powys, a fydd yn gweithredu'n awdurdod contractio i'r Consortiwm ac ar ran y Consortiwm ac yn gwneud yr holl daliadau o dan gontract pan fyddant yn ddyledus.

5. **Gwasanaethau democratig i gefnogi'r Cydbwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

6. Sicrhau ansawdd??? **Castell-nedd Port Talbot/ Abertawe**

7. Gwerth am arian??

b) Y rheini a gomisiynwyd gan un neu fwy ALl i gefnogi'r swyddogaethau canolog

1. **Dadansoddi Data** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Ceredigion yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r 5 ALl arall.

2. **Cyfathrebu** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth â thîm canolog ERW. Mae'r holl dimau cyfathrebu'n cydweithio i sicrhau bod negeseuon cyffredin yn cael eu trosglwyddo'n effeithiol.

3. **Archwilio Mewnol** – Darperir y gwasanaeth hwn gan Gyngor Sir Penfro yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth â thîm canolog ERW.

Hefyd, bu Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn trafod gyda'r Rheolwr Gyfarwyddwr ynghylch posibilrwydd cefnogi prosiect neu arf amserlennu ar gyfer olrhain ymyriadau a chamau gweithredu fel cyfraniad. Mae hefyd yn bosibl y gallai'r HWB gefnogi rôl Rheolwr Ansawdd neu Gysondeb. Mae brys am hyn bellach.

GWEITHREDU

Pob Cyfarwyddwr i rannu'r trefniadau gyda'i wasanaethau lleol priodol.

Chwefror 2015